# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 16 Hydref 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14142

## 235

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

Dechreuodd yr eitem am 14.20

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

Dechreuodd yr eitem am 15.16

Gofynnwyd y 5 cwestiwn.

## 4 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.38

**Atebwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am faterion llifogydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru?

**Atebwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

Peter Fox (Mynwy): Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn eu cael gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chynghorau ynghylch diffyg o £540 miliwn yn y gyllideb sy'n wynebu cynghorau a'u gallu i ddarparu gwasanaethau hanfodol, gan arwain at lawer o gynghorau yn wynebu methdaliad?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.59

Gwnaeth **Mike Hedges** ddatganiad am - Menter yn darparu offer gwaedu critigol ochr yn ochr â diffibrilwyr yng Ngorllewin Morgannwg.

Gwnaeth **Heledd Fychan** ddatganiad am - Gŵyl Morfydd Llwyn Owen, a gynhelir ym Mhontypridd a Threfforest (11-13 Hydref).

Gwnaeth **Cefin Campbell** ddatganiad am - 50 mlynedd ers darlledu Pobol y Cwm y tro cyntaf (16 Hydref).

## 6 Cynnig i sefydlu pwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 16.04

**NDM8694** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.5:

1. Yn sefydlu Pwyllgor Senedd y Dyfodol.

2. Yn cytuno mai cylch gwaith y Pwyllgor yw trafod tri mater a chyflwyno adroddiad arnynt erbyn 9 Mai 2025:

a) trefn busnes yn y Seithfed Senedd, gyda'r nod o ganfod opsiynau sy'n cynyddu effeithiolrwydd ei gwaith craffu, effeithiolrwydd y modd y mae'n darparu busnes o ddydd i ddydd, a hygyrchedd busnes seneddol i'r Aelodau;

b) nodi atebion i rwystrau (gwirioneddol a chanfyddedig) a all amharu ar allu'r Senedd i gynrychioli pobl o bob cefndir, profiad bywyd, dewis a chred, neu sydd â'r potensial i wneud hynny, gan gynnwys ystyried fersiynau drafft a therfynol y canllawiau ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol; ac

c) trothwyon a osodir ar hyn o bryd yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer nifer yr Aelodau sy'n ofynnol at wahanol ddibenion, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig) ffurfio grwpiau gwleidyddol, diswyddo deiliaid swyddi, a chworwm.

3. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.2T, yn penderfynu na fydd Rheolau Sefydlog 17.2A i 17.2S yn gymwys mewn perthynas â Phwyllgor Senedd y Dyfodol.

4. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

a) Julie James AS (Llafur Cymru), Alun Davies AS (Llafur Cymru), Darren Millar AS (Ceidwadwyr Cymreig) a Heledd Fychan AS (Plaid Cymru) yn aelodau o Bwyllgor Senedd y Dyfodol; a

b) David Rees (y Dirprwy Lywydd) yn Gadeirydd Pwyllgor Senedd y Dyfodol.

5. Yn unol â Rheol Sefydlog 33.6, yn atal dros dro ran gyntaf Rheol Sefydlog 17.37 mewn perthynas â Phwyllgor Senedd y Dyfodol, ac yn cytuno mai dim ond wrth arfer pleidlais fwrw y caiff cadeirydd y Pwyllgor bleidleisio.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil yn ymwneud â phrosesau cynllunio ar gyfer datblygu chwareli

Dechreuodd yr eitem am 16.12

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM8687** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar gyflwyno rhagdybiaeth mewn prosesau cynllunio yn erbyn cymeradwyo datblygu chwareli yn agos at aneddiadau.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) ei gwneud yn ofynnol i risgiau i'r amgylchedd a bioamrywiaeth, ac i iechyd y cyhoedd, mewn cysylltiad â safleoedd chwarelyddol arfaethedig gael eu hasesu fel rhan o'r broses gynllunio;

b) gosod parth clustogi gorfodol o 1,000 metr ar gyfer yr holl chwareli newydd a'r rhai presennol; a

c) darparu mai dim ond Gweinidog perthnasol Llywodraeth Cymru all wneud y penderfyniad ar gais cynllunio ar gyfer datblygu chwarel, gydag ystyriaeth yn cael ei rhoi i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 15 | 18 | 47 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

## 8 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Gweithredu Diwygiadau Addysg: Adroddiad Interim

Dechreuodd yr eitem am 16.46

**NDM8690** Buffy Williams (Rhondda)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sef 'Gweithredu diwygiadau addysg: Adroddiad interim' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Gorffennaf 2024.

Sylwch: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Hydref 2024.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Ffermydd sy'n eiddo i gynghorau

Dechreuodd yr eitem am 17.37

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8692** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wneir gan ffermydd sy'n eiddo i gynghorau o ran cefnogi cynhyrchiant bwyd a galluogi pobl ifanc i fentro i fyd ffermio.

2. Yn gresynu bod gwerthu ffermydd sy'n eiddo i gynghorau yn peryglu diogeledd bwyd Cymru a'i harferion ffermio traddodiadol, gan arwain at newid i arferion llai cynaliadwy.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi moratoriwm ar werthu ffermydd sy'n eiddo i gynghorau y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn berchen arnynt.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 25 | 47 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Yn croesawu'r ffaith y bydd y cynllun ffermio cynaliadwy ar gael i ffermwyr ar ffermydd sy'n eiddo i gynghorau ac y bydd yn cefnogi'r ffermwyr hyn.

Yn nodi mai mater i awdurdodau lleol Cymru yn y pen draw yw rheoli ffermydd sy'n eiddo i gynghorau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 22 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wneir gan ffermydd sy'n eiddo i gynghorau o ran cefnogi cynhyrchiant bwyd a galluogi pobl ifanc i fentro i fyd ffermio.

2. Yn croesawu'r ffaith y bydd y cynllun ffermio cynaliadwy ar gael i ffermwyr ar ffermydd sy'n eiddo i gynghorau ac y bydd yn cefnogi'r ffermwyr hyn.

3. Yn nodi mai mater i awdurdodau lleol Cymru yn y pen draw yw rheoli ffermydd sy'n eiddo i gynghorau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 9 | 13 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 10 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Addysgu sgiliau darllen mewn ysgolion

Dechreuodd yr eitem am 18.10

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8693** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi canlyniadau PISA 2022 a ganfu mai Cymru oedd â'r sgoriau darllen gwaethaf yn y Deyrnas Unedig, a'u bod ymhell islaw cyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

2. Yn gresynu bod 20 y cant o blant Cymru yn ymarferol anllythrennog pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol uwchradd.

3. Yn cydnabod y cafodd y system o ddefnyddio ciwiau wrth addysgu darllen ei gwahardd yn Lloegr yn 2005, yn sgil pryderon y gallai danseilio ymdrechion i addysgu disgyblion i ddarllen, ond bod hynny dal heb ddigwydd yng Nghymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i gyhoeddi canllawiau ar unwaith i sicrhau bod ysgolion ac athrawon yn defnyddio'r dull ffoneg o addysgu darllen i wella perfformiad, ac i hyrwyddo hynny; a

b) i gyflwyno cyfundrefn o brofion darllen ar frys, fel y gwelwyd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, er mwyn gwella safonau darllen.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 34 | 47 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cefnogi:

a) codi safonau darllen fel rhan o flaenoriaeth Llywodraeth Cymru i godi safonau mewn ysgolion a cholegau;

b) ymgorffori llythrennedd ar draws pob maes dysgu fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru;

c) cymryd camau i wella'r broses o addysgu dysgwyr i ddarllen, gan gynnwys gwneud geiriad canllawiau yn gliriach lle bo angen; a

d) defnyddio asesiadau personol i gefnogi cynnydd dysgwyr o ran darllen, ac i gadw llygad ar welliannau yn genedlaethol.

2. Yn nodi bod y disgwyliadau o ran pwysigrwydd ffoneg eisoes wedi'u hamlinellu yng nghanllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru.

3. Yn cydnabod bod yn rhaid i benderfyniadau am addysgu dysgwyr i ddarllen gael eu llywio bob amser gan yr hyn sydd orau i'r dysgwr.

Canllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 22 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi ei dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 3** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod y Llywodraeth wedi methu â chyrraedd ei tharged mwyaf diweddar o sicrhau 500 pwynt ym mhob un o'r tri maes a asesir gan PISA erbyn 2022, gan

gynnwys sgiliau darllen, a hynny yn dilyn methu â chyrraedd y targed gwreiddiol i Gymru fod ymhlith yr 20 o wledydd uchaf ar restr PISA.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 0 | 24 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cefnogi:

a) codi safonau darllen fel rhan o flaenoriaeth Llywodraeth Cymru i godi safonau mewn ysgolion a cholegau;

b) ymgorffori llythrennedd ar draws pob maes dysgu fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru;

c) cymryd camau i wella'r broses o addysgu dysgwyr i ddarllen, gan gynnwys gwneud geiriad canllawiau yn gliriach lle bo angen; a

d) defnyddio asesiadau personol i gefnogi cynnydd dysgwyr o ran darllen, ac i gadw llygad ar welliannau yn genedlaethol.

2. Yn nodi bod y disgwyliadau o ran pwysigrwydd ffoneg eisoes wedi'u hamlinellu yng nghanllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru.

3. Yn cydnabod bod yn rhaid i benderfyniadau am addysgu dysgwyr i ddarllen gael eu llywio bob amser gan yr hyn sydd orau i'r dysgwr.

Canllawiau statudol Cwricwlwm i Gymru

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 9 | 13 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 11 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.40

## 12 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.45

**NDM8691** Buffy Williams (Rhondda)

Sicrhau y gall pob plentyn ffynnu: dathlu addysg amgen yng Nghymru

Daeth y cyfarfod i ben am 19.09

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 22 Hydref 2024**